# A1. Profion statudol ac asesiadau effaith

A1.1 Mae'r atodiad hwn yn amlinellu ein hasesiad o'r profion statudol perthnasol ar gyfer gwneud y cynigion, sy'n ymwneud â'r mesurau Codau Ymarfer ar Gynnwys Anghyfreithlon ICU J1 ac ICU J2, a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r asesiad o'r Gymraeg ar gyfer y cynigion hyn.

## Profion statudol

A1.2 Rydym o'r farn y byddai ein cynigion yn gyson â'r egwyddorion a'r amcanion cyffredinol ar gyfer y Codau Ymarfer sydd yn Atodlen 4 y Ddeddf ac adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Fe wnaethom egluro ym Mhennod 14 Datganiad mis Rhagfyr 2024 pam roedd ein Codau Cynnwys Anghyfreithlon yn bodloni'r egwyddorion a'r amcanion hyn. Rydym o'r farn bod y rhesymau hyn yn berthnasol yma, ac y byddai'r cynigion hyn yn cyflawni'r profion statudol yn well. Yn benodol, rydym wedi ystyried priodoldeb y mesur i wasanaethau o wahanol fathau a meintiau, ac i ddarparwyr o wahanol feintiau a chapasiti. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein cynigion ar gyfer y darparwyr gwasanaethau y byddai'r mesurau hyn yn cael eu hymestyn iddynt, sy'n ystyried maint, capasiti a phroffil risg y gwasanaeth. Rydym hefyd wedi ystyried yr egwyddorion ym mharagraff 2 o Atodlen 4 ac rydym o'r farn bod ein cynigion yn cyd-fynd â'r amcanion diogelwch ar-lein: rydym o'r farn bod ein cynigion yn glir o ran eu defnydd; yn ddigon clir a manwl i ddarparwyr ddeall beth fyddai'r mesurau'n ei olygu'n ymarferol; yn gymesur ac yn ymarferol yn dechnegol i'r darparwyr sydd o fewn y cwmpas; ac y byddai'r cynnig i'w hymestyn yn sicrhau safon uwch o ddiogelwch i blant nag i oedolion ar y gwasanaethau sydd o fewn y cwmpas.

A1.3 Roedd Pennod 14 Datganiad mis Rhagfyr 2024 hefyd yn egluro pam ein bod o'r farn bod ein Codau Cynnwys Anghyfreithlon yn gyson â'n dyletswyddau cyffredinol o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Rydym hefyd o'r farn bod y rhesymau hyn yn berthnasol yma ac y byddai'r dyletswyddau hyn yn cael eu cyflawni'n well gan ein cynigion. Yn benodol:

a. Rydym o'r farn bod y cynigion hyn yn gyson â'n dyletswydd gyffredinol i hyrwyddo buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion cyfathrebu, a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, gan gynnwys drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol, drwy ymestyn amddiffyniad mesurau ICU J1 a J2 i fwy o ddefnyddwyr ar draws mwy o wasanaethau.[1]
b. Rydym hefyd o'r fan y byddai dinasyddion yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag y niwed sy'n cael ei achosi gan gynnwys ar wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, drwy sicrhau bod darparwyr yn defnyddio systemau a phrosesau priodol sydd wedi'u dylunio i leihau'r risg o niwed.[2]
c. Wrth lunio'r cynigion hyn, rydym wedi ystyried yr egwyddorion y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen gweithredu[3] – mae'r rhesymau

[1] Adran 3(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.
[2] Adran 3 (2)(g) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.
[3] Adran 3(3) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

dros ein cynigion, a pham rydym yn credu eu bod yn angenrheidiol ac yn briodol, wedi'u nodi yn yr atodiad hwn.

d. Ar ben hynny, rydym wedi ystyried y ffactorau perthnasol sy'n cael eu nodi yn adran 3(4A) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, yn enwedig yr angen am lefel uwch o ddiogelwch i blant nag i oedolion.

e. Rydym hefyd wedi ystyried natur fregus plant a phobl eraill y mae eu hamgylchiadau yn golygu bod angen diogelwch arbennig arnynt.[4]

## Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

A1.4 Rydym hefyd wedi ystyried yn ofalus a fydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael effaith benodol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys hil, oedran, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil a chrefydd neu gred yn y DU, a hefyd dibynyddion a barn wleidyddol yng Ngogledd Iwerddon), ac yn benodol a allant wahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da. Mae'r asesiad hwn yn ein helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

A1.5 Fe wnaethom egluro ym mharagraffau A4.25 ac A4.26 o Atodiad 4 i Ddatganiad mis Rhagfyr 2024 y dylai ein mesurau ar ganiatáu i ddefnyddwyr rwystro a thewi cyfrifon defnyddwyr eraill, ac i analluogi sylwadau, gael effaith gadarnhaol ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys menywod sy'n tueddu i wynebu problemau ar-lein yn anghymesur, fel aflonyddu a stelcian. Dylai'r mesurau hyn hefyd gael effaith gadarnhaol ar bobl o wahanol hiliau, crefyddau, cyfeiriadedd rhywiol, y rheini sydd ag anableddau, y rheini sydd â safbwyntiau gwleidyddol gwahanol a'r rheini sydd wedi ailbennu eu rhywedd, gan eu bod nhw hefyd yn tueddu i brofi rhai mathau o gam-drin yn anghymesur, gan gynnwys casineb ar lafar (lle bo hynny'n berthnasol) ac aflonyddu. Yn wir, drwy ymestyn y defnydd o'r mesurau hyn i ddiogelu mwy o ddefnyddwyr, rydym yn disgwyl i'r mesurau hyn gael mwy o effaith gadarnhaol.

## Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg

A1.6 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Er mwyn rhoi hyn ar waith, mae'n rhaid i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.[5] Yn unol â hynny, rydym wedi'i ystyried:

- effaith bosibl ein cynigion polisi ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
- effaith bosibl ein cynigion polisi ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a
- sut byddai modd llunio ein cynigion er mwyn iddo gael neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau niweidiol neu beidio â chael unrhyw effaith niweidiol.

A1.7 Nid ydym yn disgwyl i'n cynigion effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, nac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid ydym yn credu y gallai ein

[4] Adran 3(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

[5] Mae safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i Ofcom gydymffurfio â nhw ar gael ar ein gwefan.

cynigion gael eu llunio er mwyn cael effaith gadarnhaol, ac nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw effeithiau niweidiol i'w lleihau.

## Asesiad o'r effaith gronnol

A1.8 Rydym hefyd wedi asesu sut byddai'r cynigion hyn yn cyfrannu at effaith gronnus ein Codau Ymarfer, ar ôl ystyried Pennod 13 Datganiad mis Rhagfyr 2024. Gan ystyried y risg sylweddol o niwed anghyfreithlon i blant y byddai'r cynigion hyn yn ei liniaru, rydym o'r farn y byddai effaith gronnus ein Codau Ymarfer, pe byddem yn gweithredu'r cynigion hyn, yn gymesur.

# A2. Newidiadau Arfaethedig i Fesurau Niwed Anghyfreithlon ICU J1 ac ICU J2 wedi'u marcio

A2.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig i fesurau ICU J1 ac ICU J2 wedi'u marcio.

## ICU J1 (Rhwystro a thewi defnyddwyr)

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig i fesur ICU J1 wedi'u marcio.

| Perthnasedd | |
|---|---|
| ICU J1.1 | Mae'r mesur hwn yn berthnasol i ddarparwr mewn perthynas â phob gwasanaeth y mae'n ei ddarparu sy'n bodloni'r holl amodau canlynol:<br>a. bod gan ddefnyddwyr y gwasanaeth broffiliau defnyddwyr;<br>b. bod gan y gwasanaeth o leiaf un o'r swyddogaethau canlynol:<br>i. swyddogaeth cysylltu defnyddwyr;<br>ii. swyddogaeth postio cynnwys;<br>iii. cyfathrebu rhwng defnyddwyr (yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: (1) swyddogaeth negeseuon uniongyrchol; a (2) rhoi sylwadau ar gynnwys); a<br>c. bod y gwasanaeth yn bodloni'r disgrifiad yn:<br>i. ICU J1.2,<br>ii. ICU J1.3; neu<br>iii. ICU J1.4. |
| ICU J1.2 | Y disgrifiad yw bod y gwasanaeth:<br>a. yn wasanaeth mawr; ac ~~ei fod yn bodloni pob un o'r amodau canlynol:~~<br>b. ~~bod y gwasanaeth~~ â risg ganolig neu uchel o un neu ragor o'r mathau canlynol o niwed anghyfreithlon:<br>i. meithrin perthynas amhriodol;<br>ii. annog neu gynorthwyo hunanladdiad (neu ymgais i gyflawni hunanladdiad);<br>iii. casineb;<br>iv. aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin;<br>v. ymddygiad sy'n gorfodi neu reoli.~~;~~<br>c. ~~bod gan ddefnyddwyr y gwasanaeth broffiliau defnyddwyr; a~~<br>d. ~~bod gan y gwasanaeth o leiaf un o'r swyddogaethau canlynol:~~<br>i. ~~swyddogaeth cysylltu defnyddwyr;~~<br>ii. ~~swyddogaeth postio cynnwys;~~<br>iii. ~~cyfathrebu rhwng defnyddwyr (yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: (1) swyddogaeth~~ |

| | |
|---|---|
| | ~~negeseuon uniongyrchol; a (2) rhoi sylwadau ar gynnwys).~~ |
| ICU J1.3 | Y disgrifiad yw bod y gwasanaeth:<br>a. â llai na saith miliwn o ddefnyddwyr gweithredol misol yn y DU;<br>b. yn debygol o gael ei ddefnyddio gan blant; ac<br>c. â risg uchel o un neu ragor o'r mathau canlynol o niwed anghyfreithlon:<br>i. meithrin perthynas amhriodol;<br>ii. annog neu gynorthwyo hunanladdiad (neu ymgais i gyflawni hunanladdiad);<br>iii. casineb;<br>iv. aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin;<br>v. ymddygiad sy'n gorfodi neu reoli. |
| ICU J1.4 | Y disgrifiad yw bod y gwasanaeth:<br>a. sydd â rhwng 700,000 a saith miliwn o ddefnyddwyr gweithredol misol yn y DU;<br>b. yn debygol o gael ei ddefnyddio gan blant; ac<br>c. â risg ganolig o un neu ragor o'r mathau canlynol o niwed anghyfreithlon:<br>i. meithrin perthynas amhriodol;<br>ii. annog neu gynorthwyo hunanladdiad (neu ymgais i gyflawni hunanladdiad);<br>iii. casineb;<br>iv. aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin;<br>v. ymddygiad sy'n gorfodi neu reoli. |
| Argymhelliad | |
| ICU J1.5 | Yn yr Argymhelliad hwn:<br>ystyr "defnyddiwr cymwys" yw:<br>a. mewn perthynas â gwasanaeth sy'n bodloni'r disgrifiad yn ICU J1.2, defnyddiwr cofrestredig yn y Deyrnas Unedig;<br>b. mewn perthynas â gwasanaeth sy'n bodloni'r disgrifiad naill ai yn ICU J1.3 neu ICU J1.4, a defnyddiwr perthnasol cofrestredig.<br><br>ystyr "defnyddiwr perthnasol cofrestredig" yw:<br>a. pan fydd y darparwr yn defnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn at ddiben sefydlu pa rai o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n blant, defnyddiwr cofrestredig yr aseswyd ei fod yn blentyn; neu<br>b. fel arall, yn ddefnyddiwr cofrestredig o'r gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig. |
| ICU J1.6 | Os yw'r Argymhelliad hwn yn berthnasol oherwydd bod y gwasanaeth yn bodloni'r disgrifiad yn ICU J1.3 neu ICU J1.4, yna mae ICU J1.7 ac ICU J1.9 yn berthnasol mewn perthynas ag unrhyw ran o'r gwasanaeth sy'n agored i blant sydd â swyddogaeth cysylltu defnyddwyr, swyddogaeth postio cynnwys neu gyfathrebu rhwng defnyddwyr (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i swyddogaeth negeseuon uniongyrchol a swyddogaeth rhoi sylwadau ar gynnwys). |
| ICU J1.7 | Dylai'r darparwr gynnig yr opsiwn i bob ~~defnyddiwr cofrestredig yn y Deyrnas Unedig~~ defnyddiwr perthnasol rwystro pob un o'r canlynol: |

| | |
|---|---|
| | a. cyfrif defnyddiwr penodol, p'un a yw wedi'i gysylltu â chyfrif ~~defnyddiwr cofrestredig yn y Deyrnas Unedig~~ defnyddiwr perthnasol ai peidio; a<br>b. pan mae gan y gwasanaeth swyddogaeth cysylltu defnyddiwr, pob cyfrif defnyddiwr sydd heb ei gysylltu â chyfrif ~~defnyddiwr cofrestredig yn y Deyrnas Unedig~~ defnyddiwr perthnasol. |
| ICU J1.8 | Mae “Rhwystro” yn golygu gweithredu mewn ffordd a fydd yn arwain at:<br>a. atal defnyddwyr sydd wedi’u rhwystro rhag gallu anfon negeseuon uniongyrchol o’r cyfrif sydd wedi’i rwystro i’r cyfrif sy’n rhwystro;<br>b. atal defnyddwyr sy’n rhwystro rhag gallu anfon negeseuon uniongyrchol o’r cyfrif sy’n rhwystro i’r cyfrif sydd wedi’i rwystro;<br>c. atal y defnyddiwr sy’n rhwystro rhag gallu dod ar draws, gan ddefnyddio’r cyfrif sy’n rhwystro, unrhyw gynnwys sy’n cael ei bostio ar y gwasanaeth gan ddefnyddio’r cyfrif sydd wedi’i rwystro (ni waeth ble ar y gwasanaeth y caiff ei bostio), gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: (i) ymatebion i gynnwys; a (ii) cynnwys sy’n cael ei bostio gan ddefnyddio’r cyfrif sydd wedi’i rwystro ac sydd yna’n cael eu postio gan ddefnyddiwr arall;<br>d. atal y defnyddiwr sydd wedi’i rwystro rhag gallu dod ar draws, gan ddefnyddio’r cyfrif sydd wedi’i rwystro, unrhyw gynnwys sy’n cael ei bostio ar y gwasanaeth gan ddefnyddio’r cyfrif sy’n rhwystro (ni waeth ble ar y gwasanaeth y caiff ei bostio), gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: (i) ymatebion i gynnwys; a (ii) cynnwys sy’n cael ei bostio gan ddefnyddio’r cyfrif sy’n rhwystro ac sydd yna’n cael eu postio gan ddefnyddiwr arall; ac<br>e. na fydd y cyfrif sy’n rhwystro a’r cyfrif sydd wedi’i rwystro, os oeddent wedi’u cysylltu, wedi’u cysylltu mwyach,<br>a dylid darllen “rhwystro” yn unol â hynny.<br><br>Mae “cyfrif sy’n rhwystro” yn cyfeirio at y cyfrif defnyddiwr a ddefnyddiwyd i rwystro. Mae “cyfrif sydd wedi’i rwystro” yn cyfeirio at y cyfrif defnyddiwr y cymerwyd camau yn ei erbyn.<br><br>Mae “defnyddiwr sy’n rhwystro” yn cyfeirio at y defnyddiwr sy’n defnyddio’r cyfrif sy’n rhwystro. Mae “defnyddiwr sydd wedi’i rwystro” yn cyfeirio at y defnyddiwr sy’n defnyddio’r cyfrif sydd wedi’i rwystro. |
| ICU J1.9 | Dylai’r darparwr gynnig yr opsiwn i bob ~~defnyddiwr cofrestredig yn y Deyrnas Unedig~~ defnyddiwr perthnasol dewi cyfrifon defnyddwyr eraill (p’un a ydynt wedi’u cysylltu â’r ~~defnyddiwr cofrestredig yn y Deyrnas Unedig~~ defnyddiwr perthnasol hwnnw ai peidio) ar y gwasanaeth perthnasol. |
| ICU J1.10 | Mae “Tewi” yn golygu gweithredu mewn ffordd a fydd yn golygu na fydd y defnyddiwr sy’n tewi yn gallu dod ar draws unrhyw gynnwys sy’n cael ei bostio ar y gwasanaeth gan ddefnyddio’r cyfrif sydd wedi’i dewi, gan gynnwys:<br>a. ymatebion i gynnwys sy’n cael ei bostio gan ddefnyddio’r cyfrif sydd wedi’i dewi; a<br>b. cynnwys sy’n cael ei bostio gan ddefnyddio’r cyfrif sydd wedi’i dewi ac sy’n cael ei bostio gan ddefnyddiwr arall,<br>drwy’r cyfrif sy’n tewi, oni bai fod y defnyddiwr sy’n tewi yn ymweld â’r proffil defnyddiwr sy’n gysylltiedig â’r cyfrif sydd wedi’i dewi, os felly, bydd |

| | |
|---|---|
| | y defnyddiwr sy’n tewi yn profi’r proffil defnyddiwr hwnnw fel pe na bai’r cyfrif sydd wedi’i dewi wedi’i dewi. dylid darllen “rhwystro” yn unol â hynny.<br><br>Mae “cyfrif sy’n tewi” yn cyfeirio at y cyfrif defnyddiwr a ddefnyddiwyd i dewi. Mae “cyfrif sydd wedi’i dewi” yn cyfeirio at y cyfrif defnyddiwr y cymerwyd camau yn ei erbyn.<br><br>Mae “defnyddiwr sydd wedi’i dewi” yn cyfeirio at y defnyddiwr sy’n defnyddio’r cyfrif sydd wedi’i dewi. Mae “defnyddiwr sy’n tewi” yn cyfeirio at y defnyddiwr sy’n defnyddio’r cyfrif sy’n tewi. |
| ICU J1.11 | Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth:<br>a. ac eithrio pan mae’r tewi yn ddwyochrog, dylai defnyddwyr sydd wedi’u tewi barhau i ddod ar draws y cynnwys sy'n cael ei bostio gan ddefnyddio'r cyfrif sy’n tewi;<br>b. dylai swyddogaethau o safbwynt y defnyddiwr sydd wedi'i dewi barhau fel pe na bai'r defnyddiwr sy'n tewi wedi tewi'r cyfrif sydd wedi’i dewi; a<br>c. ni ddylai darparwyr roi gwybod i ddefnyddwyr sydd wedi’u tewi ar unrhyw adeg, neu roi gwybod iddynt fel arall, bod y cyfrif sydd wedi’i dewi wedi cael ei dewi gan y defnyddiwr sy’n tewi.<br>d. Mae tewi yn ddwyochrog pan mae defnyddiwr drwy gyfrif defnyddiwr (“A”) wedi tewi cyfrif defnyddiwr (“B”), a bod defnyddiwr drwy gyfrif defnyddiwr B hefyd wedi tewi cyfrif defnyddiwr A. |
| ICU J1.12 | Dylai’r darparwr ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr yn y Deyrnas Unedig am argaeledd yr opsiynau i rwystro a thewi defnyddwyr eraill ac effaith y gweithredoedd hyn, gan gynnwys y mathau o ryngweithio neu fynediad at gynnwys y byddai’n cyfyngu arnynt. Dylai’r wybodaeth honno fod:<br>a. yn hygyrch; ac<br>b. yn ddealladwy ar sail oedran darllen tebygol yr unigolyn ieuengaf sy’n cael defnyddio’r gwasanaeth heb ganiatâd rhiant neu warcheidwad. |

## ICU J2 (Analluogi sylwadau)

Mae’r tabl isod yn amlinellu’r newidiadau arfaethedig i fesur ICU J2 sydd wedi’u marcio.

| Ceisiadau | |
|---|---|
| ICU J2.1 | Mae’r mesur hwn yn berthnasol i ddarparwr mewn perthynas â phob gwasanaeth y mae’n ei ddarparu sy’n bodloni’r holl amodau canlynol:<br>a. bod gan y gwasanaeth swyddogaeth rhoi sylwadau ar gynnwys; a<br>b. bod y gwasanaeth yn bodloni’r disgrifiad yn:<br>i. ICU J1.2,<br>ii. ICU J1.3; neu<br>iii. ICU J1.4. |
| ICU J2.2 | Y disgrifiad yw bod y gwasanaeth: ~~Mae’r mesur hwn yn berthnasol i ddarparwr mewn perthynas â phob gwasanaeth mawr y mae’n ei ddarparu sy’n bodloni’r ddau amod canlynol:~~ |

| | |
|---|---|
| | a. yn wasanaeth mawr; ac<br>b. ~~bod y gwasanaeth~~ â risg ganolig neu uchel o un neu ragor o'r mathau canlynol o niwed anghyfreithlon:<br>i) meithrin perthynas amhriodol;<br>ii) annog neu gynorthwyo hunanladdiad (neu ymgais i gyflawni hunanladdiad);<br>iii) casineb;<br>iv) aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin~~; and~~<br>c. ~~bod gan y gwasanaeth swyddogaeth rhoi sylwadau ar gynnwys~~. |
| ICU J2.3 | Y disgrifiad yw bod y gwasanaeth:<br>a. â llai na saith miliwn o ddefnyddwyr gweithredol misol yn y DU;<br>b. yn debygol o gael ei ddefnyddio gan blant; ac<br>c. â risg uchel o un neu ragor o'r mathau canlynol o niwed anghyfreithlon:<br>i. meithrin perthynas amhriodol;<br>ii. annog neu gynorthwyo hunanladdiad (neu ymgais i gyflawni hunanladdiad);<br>iii. casineb;<br>iv. aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin. |
| ICU J2.4 | Y disgrifiad yw bod y gwasanaeth:<br>a. sydd â rhwng 700,000 a saith miliwn o ddefnyddwyr gweithredol misol yn y DU;<br>b. yn debygol o gael ei ddefnyddio gan blant; ac<br>c. â risg ganolig o un neu ragor o'r mathau canlynol o niwed anghyfreithlon:<br>i. meithrin perthynas amhriodol;<br>ii. annog neu gynorthwyo hunanladdiad (neu ymgais i gyflawni hunanladdiad);<br>iii. casineb;<br>iv. aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin. |
| Argymhelliad | |
| | |
| ICU J2.5 | Yn yr Argymhelliad hwn:<br>ystyr "defnyddiwr cymwys" yw:<br>a. mewn perthynas â gwasanaeth sy'n bodloni'r disgrifiad yn ICU J2.2, defnyddiwr cofrestredig yn y Deyrnas Unedig;<br>b. mewn perthynas â gwasanaeth sy'n bodloni'r disgrifiad naill ai yn ICU J2.3 neu ICU J2.4, a defnyddiwr perthnasol cofrestredig.<br><br>ystyr "defnyddiwr perthnasol cofrestredig" yw:<br>a. pan fydd y darparwr yn defnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn at ddiben sefydlu pa rai o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n blant, defnyddiwr cofrestredig yr aseswyd ei fod yn blentyn; neu<br>b. fel arall, yn ddefnyddiwr cofrestredig o'r gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig. |
| ICU J2.6 | Os yw'r argymhelliad hwn yn berthnasol oherwydd bod y gwasanaeth yn bodloni'r disgrifiad yn ICU J2.3 neu ICU J2.4, yna mae PCU J2.7 a PCU J2.8 yn berthnasol mewn perthynas ag unrhyw ran o'r gwasanaeth sy'n agored i blant ac sydd â swyddogaeth rhoi sylwadau ar gynnwys. |

| | |
|---|---|
| ICU J2.7 | Dylai'r darparwr gynnig yr opsiwn i bob ~~defnyddiwr cofrestredig yn y Deyrnas Unedig~~ defnyddiwr perthnasol atal unrhyw un arall sy'n defnyddio'r gwasanaeth rhag rhoi sylwadau ar gynnwys sy'n cael ei bostio ar y gwasanaeth gan ddefnyddio eu cyfrif defnyddiwr. |
| ICU J2.8 | dylai ~~defnyddwyr cofrestredig yn y Deyrnas Unedig~~ defnyddwyr perthnasol allu arfer yr opsiwn y cyfeirir ato uchod:<br>a. wrth bostio cynnwys; ac<br>b. ar ôl postio cynnwys. |
| ICU J2.9 | Dylai'r darparwr ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr yn y Deyrnas Unedig am argaeledd yr opsiwn i atal defnyddwyr eraill y gwasanaeth rhag gwneud sylwadau ar gynnwys sy'n cael ei bostio ar y gwasanaeth gan ddefnyddiwr yn y Deyrnas Unedig ac effaith y weithred hon, gan gynnwys y mathau o ryngweithio neu fynediad at gynnwys y byddai'n cyfyngu arnynt. Dylai'r wybodaeth honno fod:<br>a. yn hygyrch; ac<br>b. yn ddealladwy ar sail oedran darllen tebygol yr unigolyn ieuengaf sy'n cael defnyddio'r gwasanaeth heb ganiatâd rhiant neu warcheidwad. |

Byddai'r newidiadau canlyniadol canlynol hefyd yn cael eu gwneud:

a. Yn y Mynegai o'r mesurau sy'n cael eu hargymell, byddai'r defnydd o ICU J1 ac ICU J2 yn cael ei ddiwygio yn unol â'r defnydd diwygiedig o'r mesurau.

b. Yn Nhabl A, byddai'r croesgyfeiriadau yn y diffiniadau o Rwystro, Defnyddiwr wedi'i rwystro a Defnyddiwr sy'n rhwystro; a Tewi, Defnyddiwr wedi'i dewi a Defnyddiwr sy'n tewi yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r rhifau diwygiedig.

c. Yn Nhabl A, byddai'r diffiniadau o "defnyddiwr perthnasol" a "defnyddiwr perthnasol cofrestredig", at ddibenion mesurau J1 a J2, a chroesgyfeirio'r diffiniadau sydd wedi'u cynnwys ym mesuriadau J1 a J2 yn cael eu mewnosod yn nhrefn yr wyddor.

d. Byddai'r diffiniadau o "sicrwydd oedran effeithiol iawn" a "rhan hygyrch i blant", sydd yr un fath â'r rheini sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Ymarfer ar Amddiffyn Plant ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, yn cael eu hychwanegu at ddiwedd adran ddiffiniadau'r Codau Cam-drin Plant yn Rhywiol a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a dyletswyddau eraill.

# A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A3.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 22 Gorffennaf 2025.

A3.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr o https://www.ofcom.org.uk/online-safety/illegal-and-harmful-content/consultation-illegal-harms-user-controls/. Cewch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A3.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost at IHconsultation@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno.

A3.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:

Ymgynghoriad pellach ar niwed anghyfreithlon: Rheolaethau Defnyddwyr
Tîm Diogelwch Ar-lein Ofcom
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A3.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara mwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A3.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).

A3.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A3.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A3.9 Byddai'n ddefnyddiol pe gallai eich ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau wedi cael eu rhestru yn Atodiad X. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai hi'n bosib i chi egluro pam rydych yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A3.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â IHconsultation@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A3.11 Mae ymgyngoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A3.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A3.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A3.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A3.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A3.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn yr Haf 2026.

A3.17 Gallwch gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A3.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosib ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 4.

A3.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn croesawu syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A3.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road

London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

A4.1 Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A4.2 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A4.3 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A4.4 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd, gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A4.5 Wrth bennu hyd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ystyried natur ein cynigion a'u heffaith bosib. Byddwn bob amser yn nodi'n glir y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion.

A4.6 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosib yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.

A4.7 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A4.8 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion ar ein gwefan yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

--------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosib y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw eich ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A6. Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Dywedwch wrthym sut y daethoch ar draws yr ymgynghoriad hwn.**

☐ E-bost gan Ofcom
☐ Wedi'i weld ar y cyfryngau cymdeithasol
☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan Ofcom
☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan arall
☐ Wedi clywed amdano ar y teledu neu'r radio
☐ Wedi darllen amdano mewn papur newydd neu gylchgrawn
☐ Wedi clywed amdano mewn digwyddiad
☐ Rhywun wedi dweud wrthyf amdano neu wedi'i rannu â mi
☐ Arall (rhowch fanylion)

## Cynnig i ddiwygio Mesurau ICU J1 (rhwystro a thewi) ac ICU J2 (analluogi sylwadau)

**Cwestiwn 1:**

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion? Rhowch unrhyw dystiolaeth i ategu eich ateb.